**Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

## 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor

## 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor a gwneud penderfyniadau**

- Dangos annibyniaeth, uniondeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau yn unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïau perthnasol.
- Rhoi ystyriaeth i ofynion Cadeirydd y Pwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion yr awdurdod, gan gynnwys y Prif Swyddog Ariannol a'r Pennaeth Archwilio Mewnol (neu swyddog cyfatebol).
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod.
- Gweithio yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.
- Cyfrannu tuag at ddatblygiad rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.
- Hyrwyddo rôl y pwyllgor o fewn yr awdurdod.
- Adrodd i'r Cyngor yn ôl y gofyn.
- Ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddiant a datblygu sy'n ofynnol ar gyfer y rôl.

**Cyfrannu i waith y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran:**

**Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod**

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.
- Cadw golwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod.
- Cydweithio ag archwilwyr mewnol ac allanol.
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod a'u cymeradwyo pan gaiff pwerau eu dirprwyo, gan gynnwys paratoi adroddiadau ac argymhellion perthnasol.

**Cyfrannu i berfformiad effeithiol yr awdurdod**

- Adolygu adroddiad drafft hunanasesiad blynyddol yr awdurdod a gwneud argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd.
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Panel yr awdurdod (a gomisiynir unwaith y tymor **o fis Mai 2022 ymlaen**).
- Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

**Adolygu ac asesu trefniadau Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth yr awdurdod**

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i’r awdurdod ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny.
- Adolygu ac asesu’r risgiau ariannol sy’n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bodloni’ch hun bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, yn adlewyrchu’r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i'w wella.

## 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd